



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Astudiaeth achos arfer effeithiol

Ofcom yn codi ymwybyddiaeth eu cyflogeion o'r Gymraeg

Cyhoeddwyd – Ionawr 2022

Mewn ymateb i ofynion y safonau i ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'w cyflogeion ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, mae Ofcom wedi cynhyrchu fideo sydd wedi denu canmoliaeth gan eu staff ar draws gwledydd Prydain.

Maent yn defnyddio'r fideos ymwybyddiaeth iaith yn fewnol fel dull o gyflwyno modiwl dysgu a datblygu am y Gymraeg sy'n hyfforddiant gorfodol i staff drwy eu hadran Dysgu a Datblygu.

Cefndir

Pan ddaeth hysbysiad cydymffurfio Ofcom i rym yn 2017, cynhyrchwyd fideo i rannu gwybodaeth gyda'r staff ar draws y DU ynghylch y dyletswyddau newydd. Erbyn 2021, roedd y fideo angen ei ddiweddarau, i ddangos y cynnydd oedd wedi'i wneud a chyflwyno'r tîm Cymraeg oedd wedi ei sefydlu ers hynny.

Roedd gan aelod allweddol o'r tîm yng Nghymru sgiliau cynhyrchu oedd yn eu galluogi i greu'r fideos newydd yn fewnol ac roedd Uwch Ddylunydd Ofcom yn creu fideos animeiddiedig fel rhan o'i waith i greu'r graffeg a'i fireinio. Drwy gydweithio cynhyrchwyd fideos proffesiynol oedd yn diddanu ac yn addysgu staff.

Mae mwyafrif staff Ofcom yn gweithio y tu allan i Gymru. O ganlyniad, mae'n hanfodol fod y sefydliad yn sicrhau nad yw ymwybyddiaeth y staff hyn ynghylch materion yn gysylltiedig â'r Gymraeg yn isel. Mae angen i Ofcom sicrhau bod modd i'r staff hyn ddod o hyd i wybodaeth bwysig a chyfredol am ofynion safonau'r Gymraeg ar y fewnwyd, ac felly fe ystyriwyd bod fideo yn gyfrwng hygyrch i gyflawni'r nod hwn.

Roedd cyfyngiadau symud i atal lledaeniad Covid-19 hefyd yn golygu nad oedd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb nac ymweld â'r swyddfeydd y tu allan i Gymru i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth arferol o'r Gymraeg.

Y gwaith a wnaethpwyd

Wrth gynllunio cynnwys y fideo, penderfynwyd bod rhaid cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd oedd yn hygyrch a diddorol. Roedd yn bwysig cofio hefyd bod y mwyafrif y staff yn gweithio tu allan i Gymru, gan gynnwys nifer o staff newydd na fyddent yn debygol o feddu ar wybodaeth am yr iaith na'r dyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Cafwyd cyfarwyddyd ynghylch arferion effeithiol gan swyddogion Comisiynydd y Gymraeg o ran beth i'w gynnwys mewn fideos mewnol i gynyddu ymwybyddiaeth staff. Bu'r cyfarwyddiadau hyn o gymorth i flaenoriaethu beth oedd pwrpas y fideo:

- 1) Rhoi cefndir hanesyddol yr iaith a'i statws swyddogol yng Nghymru
- 2) Gwybodaeth am gwmpas gwaith Ofcom yn Gymraeg
- 3) Y dyletswyddau o ran safonau'r Gymraeg
- 4) Sut i ofyn am gyngor oddi wrth y Swyddogion Cymraeg

Wedi drafftio sgript, trafodwyd y gwaith ymarferol gyda'r Uwch Ddylunydd yn yr adran Ddigidol. Penderfynwyd pa waith graffeg fyddai angen a chael adborth o ran y cynnwys o safbwynt rhywun newydd i'r sefydliad sy'n gweithio o'u swyddfa yng Nghaeredin a fu'n ddefnyddiol iawn. Ymchwiliwyd i argaeledd a chostau ffilm archif drwy gysylltu gydag archifau Getty, S4C, y BBC a'r Llyfrgell Genedlaethol, ac yna buont yn chwilio am glipiau addas. Roedd cyllideb o £400 i dalu am y clipiau hyn gan eu bod yn cyfoethogi'r ffilm yn sylweddol. Er mwyn hwyluso creu fideos Cymraeg, buddsoddwyd mewn hyfforddiant ar gwrs golygu Adobe Premiere Pro i Uwch Gyngorydd y Gymraeg. Manteisiwyd hefyd ar archif rhad ac am ddim yr [Internet Archive](#) wnaeth gryfhau'r ffilm ymhellach.

Cafwyd cefnogaeth Cyfarwyddwr Ofcom Cymru ac arweinwyr eraill yn y sefydliad i greu'r gwaith a chafodd y ffilmiau eu lansio ar y fewnwyd gyda darn newyddion yn hyrwyddo'r Cornel Cymraeg newydd ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Fideo animeiddiedig yw'r cyfrwng maen nhw wedi'i ddewis i rannu gwybodaeth am y broses cyfieithu er mwyn amlygu'r ystyriaethau gyda'r amserlen a dylunio. Datblygwyd y cymeriad 'Cymraeg' yn hwnnw ymhellach ar gyfer fideo allanol i'r cyhoedd a rannwyd ym mis Medi 2021. Gallwch wyllo'r fideo hwn ar [wefan Ofcom](#). Eu bwriad yw i ddangos i'r cyhoedd yr hyn sy'n cael ei gynnig i siaradwyr Cymraeg.

Canlyniadau hyd yma

Mae Ofcom yn adrodd iddynt dderbyn ymateb gwych gan staff ar draws y sefydliad. Bu'r fideos o gymorth i gael cefnogaeth yr adran Dysgu a Datblygu yn Llundain i greu'r modiwl hyfforddiant am y Gymraeg hefyd, meddent. Mae dangos hanes y Gymraeg yn helpu cynulleidfa sy'n fwyafrif uniaith Saesneg i werthfawrogi pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn ddwyieithog. Dywed Ofcom ei bod yn bwysig hefyd nodi twf yr iaith, diben safonau'r Gymraeg a'r nod o gyrraedd y miliwn o siaradwyr i ddangos cyd-destun a gwerth eu gwaith fel cyfraniad tuag at hynny.

"Rydym wedi canfod bod llawer o'n cydweithwyr wrth eu boddau gyda'r fideo Cymraeg – mae'n ymdrin â'r pwnc â chyffyrddiad ysgafn sy'n ei gwneud yn glir ac yn ystyrlon, tra'n hwyl i'w wyllo. Mae ein tîm yng Nghymru yn grŵp creadigol, llawn egni â dawn cyfathrebu sy'n gweithio'n galed i gadw'r Gymraeg ar flaen meddyliau'r tîm cyfathrebu ehangach."

Julia Clayworth, Pennaeth Cyfathrebu Mewnol a Digwyddiadau, Ofcom

Sut gall hyn weithio i sefydliadau eraill?

Mae'n werth gwirio pa archif sydd ar gael yn gynnar yn y broses cyn glynu yn rhy gaeth at syniad neu sgript cychwynnol os na fydd clip addas ar gael oherwydd problemau hawlfraint ac fe nododd Ofcom bod clipiau archif yn gallu bod yn ddrud iawn.

Yn nhyb Ofcom mae angen meddwl am yr elfen ddiddanol os yn gorfod apelio at gynulleidfa neu staff tu allan i Gymru sydd heb lawer neu ddim ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Bydd y gynulleidfa yn debygol o ddrysu a syrffedu gyda fideo sydd wedi'i orlwytho gyda ffeithiau ond gellir amlygu ble allent gyfeirio ato i gael rhagor o wybodaeth. Cyngor Ofcom yw i gadw at negeseuon a gwybodaeth graidd.

Manylion cyswllt

Sefydliad:	Ofcom
E-bost:	ymholiadaucymraeg@ofcom.org.uk
Swyddog cyswllt:	Joanna Davies

Barn Comisiynydd y Gymraeg

Nid yw'r safon sy'n cynnwys y ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith cyflogeion (sef safon 128 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016) yn manylu ynghylch drwy ba gyfrwng dylid darparu'r hyfforddiant hwnnw.

Mae Ofcom wedi ystyried yr adnoddau sydd wrth law a gofynion eu cynulleidfa darged a buddsoddi mewn cyfrwng sy'n gweddu i'w gofynion gyda'r fideo cofiadwy a gynhyrchwyd.

Noder: Oherwydd rheolau hawlfraint, ni all Comisiynydd y Gymraeg rannu'r fideo yn gyhoeddus ond fe ellir gwneud cais uniongyrchol at Ofcom i'w weld ar sail unigol at ddibenion dysgu a rhannu gwybodaeth.